OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 691

# Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017

## RHAN 2

## Marchnata Deunyddiau Planhigion

**Marchnata deunyddiau planhigion**

**5.**—(1) Ni chaiff cyflenwr farchnata deunyddiau planhigion onid yw—

(a) y cyflenwr wedi ei gofrestru yn unol â rheoliad 11; a

(b) y deunyddiau planhigion yn bodloni'r gofynion ym mharagraff (2).

(2) Rhaid i'r deunyddiau planhigion—

(a) bod yn ddeunyddiau planhigion ardystiedig neu'n ddeunyddiau CAC;

(b) bod yn amrywogaeth y caniateir ei marchnata yn unol â rheoliad 7;

(c) cael eu marchnata gan gyfeirio at yr amrywogaeth y mae'r deunyddiau planhigion yn perthyn iddi yn unol â rheoliad 8;

(d) mewn perthynas â deunyddiau planhigion ardystiedig, cael eu labelu, eu selio a'u pecynnu yn unol â rheoliad 10; ac

(e) mewn perthynas â deunyddiau CAC, mynd gyda dogfen y cyflenwr.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi marchnata deunyddiau planhigion o unrhyw wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd os ydynt wedi eu bodloni bod y deunyddiau planhigion wedi eu cynhyrchu o dan amodau sy'n cyfateb i'r gofynion ar gyfer deunyddiau planhigion yn y Rheoliadau hyn.

(4) Mae paragraff (3) yn peidio â chael effaith ar 31 Rhagfyr 2018.

**Eithriadau**

**6.** Nid yw rheoliad 5(1)(b) yn gymwys i farchnata deunyddiau planhigion a fwriedir ar gyfer—

(a) treialon neu at ddibenion gwyddonol;

(b) gwaith dethol;

(c) mesurau sydd â'r nod o warchod amrywiaeth enetig.

**Amrywogaethau y caniateir eu marchnata**

**7.**—(1) Mae deunyddiau planhigion o amrywogaeth y caniateir ei marchnata os yw'r amrywogaeth yn bodloni un neu ragor o ofynion paragraff (2).

(2) Rhaid i'r amrywogaeth—

(a) bod wedi cael hawliau amrywogaeth planhigion;

(b) bod yn gofrestredig fel amrywogaeth;

(c) bod yn destun cais am—

(i) hawliau amrywogaeth planhigion; neu

(ii) ei chofrestru fel amrywogaeth;

(d) bod wedi ei marchnata cyn 30 Medi 2012 o fewn yr Undeb Ewropeaidd a bod â disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol; neu

(e) mewn perthynas ag amrywogaethau sydd o ddim gwerth cynhenid o ran cynhyrchu cnydau masnachol sy'n cael eu marchnata o fewn y Deyrnas Unedig—

(i) bod â disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol; a

(ii) bod yn ddeunyddiau CAC.

(3) Rhaid i gyflenwr sy'n marchnata deunyddiau planhigion o amrywogaeth a ddisgrifir ym mharagraff (2)(e) sicrhau bod dogfen y cyflenwr yn mynd gyda'r deunyddiau planhigion, yn datgan eu bod yn cael eu marchnata yn unol ag ail baragraff Erthygl 7(2) o Gyfarwyddeb 2008/90/EC.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cofrestredig fel amrywogaeth" ("*registered as a variety*") (ac mae "cofrestru" ("*registration*") i'w ddehongli yn unol â hynny) yw—

(a) cofrestru fel amrywogaeth yng Nghymru yn unol ag Atodlen 4; neu

(b) cofrestru fel amrywogaeth y tu allan i Gymru gan yr awdurdod cyfrifol yn y wlad neu'r diriogaeth yn unol ag Erthygl 4 o Gyfarwyddeb 2014/97/EU.

### Cyfeiriadau at amrywogaeth deunyddiau planhigion

**8.** Caiff deunyddiau planhigion eu marchnata gan gyfeirio at eu hamrywogaeth, os cânt eu marchnata, mewn perthynas ag—

(a) amrywogaeth o ddeunyddiau planhigion sy'n destun cais am roi hawliau amrywogaeth planhigion, drwy gyfeirio at gyfeirnod y bridiwr neu enw arfaethedig yr amrywogaeth;

(b) amrywogaeth gofrestredig, drwy gyfeirio at ei henw cofrestredig;

(c) amrywogaeth sy'n destun cais am gofrestriad o'r fath, drwy gyfeirio at gyfeirnod y bridiwr neu enw arfaethedig yr amrywogaeth;

(d) gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth, drwy gyfeirio at y rhywogaeth briodol neu'r cymysgryw rhyngrywiogaethol priodol.

### Ardystio deunyddiau planhigion

**9.**—(1) Os bodlonir gofynion paragraff (2), rhaid i arolygydd—

(a) ardystio bod deunyddiau planhigion a gynhyrchir yng Nghymru—

(i) yn ddeunyddiau cyn-sylfaenol;

(ii) yn ddeunyddiau sylfaenol; neu

(iii) yn ddeunyddiau ardystiedig;

(b) dyroddi tystysgrif sy'n cadarnhau'r ardystiad (tystysgrif arolygu cnwd).

(2) Y gofynion yw y canfuwyd, mewn archwiliad swyddogol, fod y deunyddiau planhigion yn cydymffurfio â'r gofynion ardystio a nodir yn narpariaethau perthnasol Atodlen 5.

(3) Rhaid i gais am ardystio deunyddiau planhigion a gynhyrchir yng Nghymru gael ei wneud yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru a rhaid i unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru fynd gydag ef.

(4) Mae label swyddogol a ddyroddir yn unol â'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â deunyddiau planhigion ardystiedig yn dystiolaeth ddigonol fod arolygydd wedi ardystio bod deunyddiau planhigion y mae'r label swyddogol yn ymwneud â hwy yn ddeunyddiau planhigion ardystiedig.

**Labelu, selio a phecynnu deunyddiau planhigion ardystiedig**

**10.**—(1) Rhaid i ddeunyddiau planhigion ardystiedig, a gaiff eu marchnata, gael eu labelu, eu selio a'u pecynnu yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi neu gymeradwyo label (label swyddogol) os yw'r label hwnnw yn bodloni gofynion Rhan 1 o Atodlen 2.

(3) Ond nid oes angen i label a ddefnyddir wrth gyflenwi deunyddiau planhigion ardystiedig i'w manwerthu i ddefnyddiwr olaf nad yw'n broffesiynolyn, ond gynnwys gwybodaeth briodol am y cynnyrch, gan gynnwys enw'r awdurdod cyfrifol, enw neu rif cofrestru'r cyflenwr, yr enw botanegol ac enw'r amrywogaeth.

(4) Rhaid i label swyddogol fod ynghlwm wrth y deunyddiau planhigion ardystiedig.

(5) Pan fo deunyddiau planhigion ardystiedig yn rhan o'r un lot ac yn cael eu marchnata mewn pecyn, bwndel neu gynhwysydd, rhaid rhoi label swyddogol ynghlwm wrth y pecyn, y bwndel neu'r cynhwysydd hwnnw.

(6) Nid yw paragraffau (4) a (5) yn gymwys pan fo pasbort planhigion a ddyroddir yn unol â Chyfarwyddeb 2000/29/EC, sy'n cynnwys yr wybodaeth ym mharagraff 4 o Atodlen 2, yn mynd gyda deunyddiau planhigion ardystiedig.

(7) Ni chaiff cyflenwr farchnata deunyddiau planhigion ardystiedig mewn lotiau o ddau neu ragor o blanhigion neu rannau o blanhigion oni bai bod y lotiau hynny yn ddigon cydryw ac wedi eu pecynnu'n briodol.

(8) At ddibenion paragraff (7), ystyr "wedi eu pecynnu'n briodol" yw bod y planhigion neu'r rhannau o blanhigion—

(a) mewn pecyn neu gynhwysydd sydd wedi ei selio mewn modd sy'n atal y pecyn neu'r cynhwysydd rhag cael ei agor heb ddifrodi'r caead neu wneud y label swyddogol yn annilys; neu

(b) yn rhan o fwndel sydd wedi ei glymu yn y fath fodd fel na ellir gwahanu'r planhigion neu'r rhannau o blanhigion sy'n rhan o'r bwndel heb ddifrodi'r cwlwm neu'r clymau.